Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

# HYSBYSIAD O ORCHYMYN

**Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981**

## GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL (YCHWANEGU LLWYBR CEFFYLAU RHIF 101 YNG NGHYMUNED CAERHUN) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY 2022

Hysbysir drwy hyn fod y Gorchymyn y cyfeirir ato uchod wedi cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ar gyfer penderfyniad. Bydd Arolygydd yn cael ei benodi gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar y Gorchymyn.

Y **dyddiad dechrau** ar gyfer y Gorchymyn uchod yw **06/01/2026.**

Bydd y Gorchymyn yn cael ei ystyried ar ffurf ymchwiliad cyhoeddus, y cadarnheir ei fanylion maes o law.

Effaith y Gorchymyn, os caiff ei gadarnhau fel y'i gwnaed, fydd addasu'r Map a'r Datganiad Diffiniol ar gyfer yr ardal trwy ychwanegu llwybr ceffylau, hynny yw hawl dramwy gyhoeddus ar gyfer ceffylau, ac ar gyfer pobl ar droed a chyda beic, yng nghymuned Caerhun. Mae'r Llwybr Ceffylau'n dechrau lle y mae'n gadael y rhan o ffordd ag wyneb caled a adwaenir fel Ffordd Bryn Siriol yng nghyfeirnod grid SH 7664 6768 ac yn mynd i fyny i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol am ychydig fetrau cyn troi i gyfeiriad gogledd-orllewinol gan fynd rhwng eiddo Bryn Siriol ac adeiladau allan ac yna parhau i fynd i fyny i gyfeiriad gogledd-orllewinol mewn modd igam-ogam braidd i derfynu gerllaw mynedfa Llidiard Fadog a'r ffordd darmac Pant Meurig yng nghyfeirnod grid SH 7620 6794. Mae'r llwybr tua 679m o hyd. Mae lled y llwybr yn amrywio rhwng 2.9m ac 1.5m gyda mannau cyfyng mewn rhannau cul rhwng wal a chraigwely.

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r Gorchymyn hwn gael eu cyfeirio at Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC), Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ. Rhif ffôn: 0300 123 1590. E-bost: PEDW.gwaithachos@llyw.cymru. Dyfynnwch gyfeirnod CAS-04047-N8G5H2 ar bob gohebiaeth.

Caiff unrhyw unigolyn sy'n dymuno gweld y datganiadau achos a dogfennau eraill sy'n ymwneud â'r Gorchymyn hwn wneud hynny trwy apwyntiad yng Nghyngor Sir Conwy, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn, LL29 7AZ, yn ystod oriau swyddfa arferol. (Manylion cyswllt y Cyngor: rhif ffôn: 01492 575337 e-bost: legal@conwy.gov.uk).

Mae dogfennau'r achos ar gael i'w gweld/lawrlwytho hefyd ar wefan Porth PCAC yn;

https://planningcasework.service.gov.wales/cy

Defnyddiwch gyfeirnod yr achos, sef CAS-04047-N8G5H2 i gael at y dogfennau.

**<u>Amserlen ar gyfer anfon datganiadau achos/proflenni tystiolaeth</u>**

**O fewn 8 wythnos o'r dyddiad dechrau erbyn 03/03/2026**

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Gwneud Gorchymyn ar gyfer y Gorchymyn sicrhau bod ei ddatganiad achos, gan gynnwys copi o'r dogfennau y bydd yn eu cyflwyno fel tystiolaeth a rhestr o'r holl ddogfennau hynny, yn cael ei dderbyn gan Weinidogion Cymru. Cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad cau, bydd Gweinidogion Cymru yn anfon copi (heblaw am gopïau o unrhyw ddogfennau ategol) at bawb sydd wedi gwneud gwrthwynebiad neu sylw, yr ymgeisydd, ac unrhyw unigolyn arall sydd wedi gwneud sylw.

**O fewn 14 wythnos o'r dyddiad dechrau erbyn 14/04/2026**

Mae'n rhaid bawb sydd wedi gwneud gwrthwynebiad neu sylw ac unrhyw un sy'n dymuno rhoi tystiolaeth yn yr Ymchwiliad sicrhau bod ei ddatganiad achos[1] yn cael ei dderbyn gan Weinidogion Cymru. Cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad cau, bydd Gweinidogion Cymru yn anfon copïau at y prif gefnogwr, yr ymgeisydd, pob unigolyn arall sydd wedi gwneud gwrthwynebiad neu sylw ac unrhyw unigolyn arall sydd wedi gwneud sylw (heblaw am gopïau o unrhyw ddogfennau ategol).

O fewn yr un cyfnod, mae'n rhaid i'r ymgeisydd (os yw'n berthnasol) sicrhau bod ei ddatganiad achos yn cael ei dderbyn gan Weinidogion Cymru. Cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad cau, bydd Gweinidogion Cymru yn anfon copi at yr Awdurdod Gwneud Gorchymyn, pawb sydd wedi gwneud gwrthwynebiad neu sylw ac unrhyw unigolyn arall sydd wedi gwneud sylw (heblaw am gopïau o unrhyw ddogfennau ategol).

**4 wythnos cyn dyddiad yr ymchwiliad (TBD)**

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Gwneud Gorchymyn, pawb sydd wedi gwneud gwrthwynebiad neu sylw, yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) ac unrhyw un sy'n dymuno rhoi tystiolaeth yn yr Ymchwiliad sicrhau bod ei broflen dystiolaeth (ynghyd ag unrhyw grynodeb) yn cael ei derbyn gan Weinidogion Cymru. Cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad cau, bydd Gweinidogion Cymru yn anfon copïau o'r canlynol:

i) proflen dystiolaeth yr Awdurdod Gwneud Gorchymyn at bawb sydd wedi gwneud gwrthwynebiad neu sylw, yr ymgeisydd ac unrhyw un sydd wedi cyflwyno datganiad achos (heblaw am gopïau o unrhyw ddogfennau ategol – er na ddylid cyflwyno unrhyw rai gyda phroflen dystiolaeth);

ii) proflen dystiolaeth yr ymgeisydd at yr Awdurdod, pawb sydd wedi gwneud gwrthwynebiad neu sylw ac unrhyw un arall sydd wedi cyflwyno datganiad achos (heblaw am gopïau o unrhyw ddogfennau ategol – er na ddylid cyflwyno unrhyw rai gyda phroflen dystiolaeth); ac

iii) yr holl broflenni tystiolaeth eraill at yr Awdurdod Gwneud Gorchymyn a'r

[1] *Os hoffech wneud cyflwyniad cyfreithiol, dylid ei gyflwyno ar yr un pryd â'ch datganiad achos. Fel arall, bydd rhaid i gyflwyniadau cyfreithiol gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig ar ddiwrnod yr ymchwiliad.*

ymgeisydd (heblaw am gopïau o unrhyw ddogfennau ategol – er na ddylid cyflwyno unrhyw rai gyda phroflen dystiolaeth).

***Mae’n rhaid i’r holl bartïon gadw at yr amserlen a amlinellir uchod a sicrhau bod datganiadau achos a phroflenni tystiolaeth yn cael eu derbyn gan Weinidogion Cymru yn brydlon. Bydd dogfennau hwyr yn cael eu dychwelyd.***